Estyn

*Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all*

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad arolygiad ardal ar ansawdd a safon y ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr 14 i 19 oed yn Sir y Fflint

Mehefin 2011

SAFON AMGYLCHEDDOL Y DDRAIG WERDD · GREEN DRAGON ENVIRONMENTAL STANDARD

Iechyd ar Waith · CYRRAEDD Y NOD · THE CORPORATE STANDARD · Health at Work

BUDDSODDWYR MEWN POBL | Aur

Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:

- ysgolion a safleoedd meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol;
- ysgolion cynradd;
- ysgolion uwchradd;
- ysgolion arbennig;
- unedau cyfeirio disgyblion;
- ysgolion annibynnol;
- addysg bellach;
- dysgu oedolion yn y gymuned;
- gwasanaethau cymorth ieuenctid;
- hyfforddiant gwaith ieuenctid a chymunedol;
- gwasanaethau addysg awdurdodau lleol;
- addysg a hyfforddiant athrawon;
- dysgu yn y gwaith;
- cwmnïau gyrfaoedd;
- dysgu troseddwyr; ac
- elfennau addysg, arweiniad a hyfforddiant rhaglenni hyfforddi sydd wedi'u hariannu gan yr Adran Gwaith a Phensiynau.

Mae Estyn hefyd:

- yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill; ac
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)**

**© Hawlfraint y Goron 2011: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y ddogfen/cyhoeddiad penodol.**

| **Cynnwys** | **Tudalen** |
|---|---|

| | |
|---|---|
| **Ynglŷn â'r ardal** | **1** |
| Nodweddion cymdeithasol ac economaidd | 1 |
| Patrwm y ddarpariaeth | 1 |
| Cyfranogiad pobl ifanc 16 i 19 oed mewn addysg a hyfforddiant | 2 |
| **Crynodeb** | **3** |
| Perfformiad presennol darpariaeth yr ardal | 3 |
| Rhagolygon gwella darpariaeth yr ardal | 3 |
| **Argymhellion** | **4** |
| **Prif ganfyddiadau** | **5** |
| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | 5 |
| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | 6 |
| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | 8 |
| **Atodiad 1: Sail dystiolaeth yr arolygiad** | |
| **Atodiad 2: Y tîm arolygu** | |

## Cyflwyniad

Mae Estyn yn cynnal arolygiadau ardal o dan adran 83 Deddf Addysg a Sgiliau 2000. Os gofynnir am hynny gan y Cynulliad Cenedlaethol, mae'r Ddeddf hon yn datgan bod yn rhaid i Brif Arolygydd Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru arolygu:

- ansawdd ac argaeledd disgrifiad penodol o addysg a hyfforddiant, mewn ardal benodol o Gymru, ar gyfer pobl sy'n 15[1] oed neu'n hŷn;
- y safonau a gyflawnir gan y rhai sy'n derbyn yr addysg neu'r hyfforddiant hwnnw; ac
- a yw'r adnoddau ariannol sydd ar gael i'r rhai sy'n darparu'r addysg a'r hyfforddiant hwnnw'n cael eu rheoli'n effeithlon a'u defnyddio mewn modd sy'n cynnig gwerth am arian.

Gall y Prif Arolygydd gynnal arolygiad o'r fath heb i'r Cynulliad Cenedlaethol ofyn am wneud hynny.

Mae Adran 84 y Ddeddf yn rhoi'r pŵer i'r Cynulliad Cenedlaethol gyfarwyddo awdurdod lleol (ALl), y daw ei ardal o fewn yr ardal a gwmpesir gan yr adroddiad yn llwyr neu'n rhannol, i baratoi datganiad ysgrifenedig o'r camau y mae'n bwriadu eu cymryd yng ngolau adroddiad arolygiad ardal a gyhoeddwyd gan y Prif Arolygydd. Wrth baratoi datganiad o'r fath, mae'n rhaid i'r ALl ymgynghori â'r cyfryw bobl y gall y Cynulliad Cenedlaethol eu cyfarwyddo. Mae'n rhaid i'r cynllun gweithredu gael ei gyhoeddi o fewn 50 diwrnod. Bydd Estyn yn arfarnu'r cynllun gweithredu ac yn ei gymeradwyo os yw'n mynd i'r afael yn glir â'r materion a nodwyd yn yr adroddiad ac yn nodi sut bydd y gwelliant yn cael ei gyflawni. Gall Estyn hefyd ofyn i ddarparwyr penodol baratoi cynlluniau gweithredu mewn perthynas â materion sy'n gyfrifoldeb iddynt. Rhaid i'r ALl anfon copïau o gynlluniau gweithredu i Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Arolygwyr Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru a/neu arolygwyr ychwanegol sy'n cynnal arolygiadau. Bydd enwebai sy'n cynrychioli'r darparwr hefyd yn aelod o'r tîm arolygu, ond ni fydd yr enwebai'n cymryd rhan mewn trafodaethau am raddau.

Defnyddiodd y tîm arolygu y fframwaith arolygu cyffredin ar gyfer yr arolygiad ardal, gyda llawlyfrau arweiniad ar gyfer arolygiadau ardal a phob sector a arolygwyd yn ategu hwnnw. Mae'r dogfennau hyn ar gael ar wefan Estyn yn www.estyn.gov.uk.

[1] Mae Adran 83 (11) yn darparu y bydd 'pobl sy'n 15 oed' yn cynnwys pobl y darperir addysg iddynt mewn ysgol a fydd yn cyrraedd yr oedran hwnnw yn y flwyddyn ysgol honno.

Mae Estyn yn cymhwyso un o'r barnau canlynol i bob un o gwestiynau allweddol y fframwaith arolygu cyffredin:

Rhagorol – Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector

Da – Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol
Digonol – Cryfderau yn gorbwyso meysydd i'w gwella

Anfoddhaol – Meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso cryfderau

## Ynglŷn â'r ardal

### Nodweddion cymdeithasol ac economaidd

Mae gan Sir y Fflint boblogaeth o ryw 148,900 o bobl, a rhagwelir y bydd hyn yn codi i fwy na 152,000 erbyn 2033. Mae dwy ran o dair o'r boblogaeth yn byw yn anheddau mawr Glannau Dyfrdwy, Bwcle, Y Fflint, Treffynnon, Yr Wyddgrug a Saltney. Yn 2001, roedd 14.1% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg, o gymharu â ffigur Cymru sef 20.5%.

Mae lefel y boblogaeth ethnig leiafrifol yn Sir y Fflint yn isel iawn, gydag ychydig dros 1% o ddisgyblion yn ysgolion Sir y Fflint yn dod o gefndiroedd ethnig lleiafrifol. Bu cynnydd diweddar yn nifer y bobl sy'n dod o Wlad Pwyl ac o wledydd Ewropeaidd eraill i fyw a gweithio yn Sir y Fflint.

Mae lefelau difreintedd yn Sir y Fflint yn is na'r lefelau yn nwy ran o dair o ardaloedd eraill Cymru, yn ôl Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru. Fodd bynnag, mae Higher Shotton a Greenfield ymhlith y 10% o wardiau mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Cyfran y disgyblion a oedd yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim mewn ysgolion uwchradd Sir y Fflint yn 2010 oedd 11.0%, o gymharu â ffigur Cymru gyfan, sef 17.1%.

Sir y Fflint sydd â'r gyfradd gyflogaeth uchaf o holl awdurdodau Cymru. Mae ganddi berfeddwlad ddiwydiannol sylweddol a ffyniannus ac mae'r ardal yn enwog am ei chwmnïau rhyngrwyd. Fodd bynnag, mae 16% o'r trigolion yn gweithio mewn galwedigaethau medrau isel, â thâl isel, ac mae nifer y bobl sydd â gradd neu gymwysterau cyfwerth yn yr ardal yn isel.

### Patrwm y ddarpariaeth

Mae gan Sir y Fflint 13 o ysgolion uwchradd, gan gynnwys un ysgol arbenigol ac un ysgol cyfrwng Cymraeg. Mae un o'r ysgolion uwchradd, Ysgol Uwchradd Argoed ym Mynydd Isa, yn darparu ar gyfer dysgwyr 11 i 16 oed yn unig. Mae'r Portffolio Uned Cyfeirio Disgyblion yn cynnwys saith canolfan sy'n cyfuno i gynnig darpariaeth ar gyfer dysgwyr yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4 sydd ag anawsterau ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol.

Mae Coleg Glannau Dyfrdwy yn cyflwyno darpariaeth addysg bellach o ddau safle yn Sir y Fflint. Yn dilyn yr ad-drefnu diweddar, mae Coleg Llysfasi yn Sir Ddinbych bellach yn rhan o Goleg Glannau Dyfrdwy. Mae bron yr holl ddarpariaeth dysgu yn y gwaith yn cael ei chyflwyno gan Goleg Glannau Dyfrdwy a Hyfforddiant Gogledd Cymru.

Mae cydweithio helaeth rhwng darparwyr er mwyn ymestyn amrywiaeth y cyrsiau sy’n cael eu cynnig yng nghyfnod allweddol 4. Mae dysgwyr o holl ysgolion uwchradd Sir y Fflint yn gallu manteisio ar y ddarpariaeth gydweithredol hon. Ar lefel ôl-16, mae pedair ysgol yn rhan o Gonsortiwm hirsefydledig Glannau Dyfrdwy yng ngogledd y sir. Yn y de, mae ysgolion yn cydweithio â’r coleg i gyflwyno cwricwlwm ôl-16 lleol ar gyfer 2011-2012. Bydd hwn yn cynnwys cyrsiau a gyflwynir ar gampws Glannau Dyfrdwy yn Llysfasi.

Mae’r ysgol cyfrwng Cymraeg, sef Ysgol Maes Garmon, yn gweithio mewn partneriaeth ag Ysgol Morgan Llwyd yn Wrecsam a Choleg Glannau Dyfrdwy i ymestyn y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Hefyd, mae’n ymwneud â’r fforwm sy’n gweithio i ymestyn y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ledled gogledd Cymru.

Yn 2009, canran y lleoedd heb eu llenwi yn ysgolion uwchradd Sir y Fflint oedd 11.6%, o gymharu â ffigur Cymru sef 15.9%.

**Cyfranogiad pobl ifanc 16 i 19 oed mewn addysg a hyfforddiant**

Yn 2009, roedd 83.6% o ddysgwyr Blwyddyn 11 wedi parhau mewn addysg amser llawn o gymharu ag 82.2% yng Nghymru yn ei chyfanrwydd. Cyfran ymadawyr Blwyddyn 11 yn 2009 nad oeddent mewn addysg, hyfforddiant na chyflogaeth oedd 3.7%, o gymharu â ffigur Cymru, sef 5.7%, a ffigur Sir y Fflint oedd y trydydd isaf o blith ffigurau awdurdodau lleol Cymru. Mae data heb ei wirio’n awgrymu y bu gostyngiad pellach yng nghyfran y bobl ifanc nad oeddent mewn addysg, hyfforddiant na chyflogaeth yn 2010 i 2.8%.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol darpariaeth yr ardal** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella darpariaeth yr ardal** | **Da** |

Mae’r perfformiad presennol yn dda oherwydd:

- cyrhaeddiad da dysgwyr 14 i 19 oed;
- lefelau uchel o gyfranogiad dysgwyr, cyfraddau presenoldeb, a chyfran uchel y bobl ifanc 16 oed sy’n parhau mewn addysg a hyfforddiant neu sy’n mynd ymlaen i gyflogaeth;
- y cydweithio sy’n datblygu rhwng ysgolion a sectorau eraill i ehangu amrywiaeth y cyrsiau sy’n cael eu cynnig i ddysgwyr;
- gweithio mewn partneriaeth sydd wedi’i ddatblygu’n dda i gynnig ystod eang o weithgareddau dysgu nad ydynt yn ffurfiol a gweithgareddau dysgu anffurfiol; a
- chymorth o ansawdd da i ddysgwyr, a dargedwyd i fodloni anghenion penodol ac sy’n rhoi cyngor addysgiadol i ddysgwyr ar yr opsiynau sydd ar gael iddynt.

Mae’r rhagolygon gwella yn dda oherwydd:

- ymrwymiad cadarn gan bartneriaid a rhanddeiliaid i weithio mewn partneriaeth, wedi’i adeiladu ar seiliau cadarn drwy ymgynghori ac ymgysylltu helaeth;
- dealltwriaeth glir o’r heriau sydd o’i blaen ac ymrwymiad cadarn i newid patrwm presennol y ddarpariaeth yn y cyfnod ôl-16;
- hanes da o ddatblygu cydweithio rhwng darparwyr a sectorau;
- gweithdrefnau sicrhau ansawdd sydd wedi’u datblygu’n dda, ac yn sgil hynny dealltwriaeth glir a chywir o berfformiad presennol ac o feysydd y mae angen eu gwella; a’r
- ffordd y mae prosesau hunanarfarnu yn llywio’r gwaith o gynllunio gwelliant.

## Argymhellion

Er mwyn gwella safonau ac ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr 14 i 19 oed yn Sir y Fflint ymhellach, mae angen i'r awdurdod lleol a darparwyr addysg a hyfforddiant weithio gyda'i gilydd i:

A1 resymoli'r ddarpariaeth i ddysgwyr 16 i 19 oed i ddileu dosbarthiadau bach a dyblygu diangen;

A2 sicrhau gwelliannau pellach yng nghyrhaeddiad dysgwyr mewn ysgolion yng nghyfnod allweddol 4 ac yn arbennig yn y cyfnod ôl-16;

A3 parhau i ymestyn y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ôl-16 yng Ngholeg Glannau Dyfrdwy ac yn Hyfforddiant Gogledd Cymru, a chynyddu lefelau cyfranogi, fel bod mwy o ddysgwyr yn parhau â dysgu ac asesu cyfrwng Cymraeg yn y cyfnod ôl-16;

A4 ymestyn yr arfer dda o ran sicrhau ansawdd darpariaeth gydweithredol i bob darparwr; a

A5 datblygu ymhellach y ffordd y mae'r rhwydwaith yn coladu ac yn defnyddio data a gwybodaeth arall yn ganolog i lywio cynllunio strategol ac i hwyluso'r gwaith o arfarnu effaith a chynnydd.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

Dros y tair blynedd diwethaf, bu tuedd sylweddol o wella ym mherfformiad ysgolion uwchradd Sir y Fflint yng nghyfnod allweddol 4. Cyfran y dysgwyr a wnaeth gyrraedd trothwy lefel 2[2] gan gynnwys Saesneg neu Gymraeg a mathemateg oedd yr ail uchaf yng Nghymru yn 2009 a'r gorau yng Nghymru yn 2010. Hefyd, Sir y Fflint oedd yr awdurdod lleol a wnaeth berfformio orau yng Nghymru yn y dangosydd pwnc craidd[3] a throthwy lefel 1[4] yn 2010. Mae perfformiad yn y sgôr pwyntiau cyfartalog ehangach[5] wedi gwella hefyd ond mae'n parhau'n is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru. Nid oes digon o ddysgwyr yn ennill graddau A* ac A mewn TGAU yng nghyfnod allweddol 4.

Mae'r gwelliant cyffredinol mewn cyrhaeddiad yn cael ei adlewyrchu yn y perfformiad gwell o gymharu ysgolion uwchradd Sir y Fflint ag ysgolion tebyg yng Nghymru o safbwynt lefelau prydau ysgol am ddim. Yn 2010, roedd tua dwy ran o dair o ysgolion Sir y Fflint yn hanner uchaf yr ysgolion tebyg o ran cyfran y disgyblion yn cyflawni trothwy lefel 2, gan gynnwys Saesneg neu Gymraeg a mathemateg. Fodd bynnag, mae cyfran y dysgwyr sy'n cyflawni trothwy lefel 2 a'r sgôr pwyntiau cyfartalog ehangach wedi bod yn is na'r disgwyl ar gyfer y cyfnod tair blynedd hyd at 2009[6].

Mewn ysgolion, mae cyfran y dysgwyr ôl-16 yn cyflawni trothwy lefel 3[7] wedi bod tua chyfartaledd Cymru dros y tair blynedd diwethaf. Mae'r sgôr pwyntiau cyfartalog ehangach[8] wedi gwella, ond mae'n parhau islaw cyfartaledd Cymru yn sylweddol. Nid yw digon o ddysgwyr yn ennill graddau A* ac A mewn arholiadau Safon Uwch.

Mae'r deilliannau yng Ngholeg Glannau Dyfrdwy ymhell uwchlaw cymaryddion cenedlaethol a disgwyliadau yn gyson. Yn 2010, cyrhaeddiad yng Ngholeg Glannau Dyfrdwy oedd yr ail uchaf yng Nghymru a'r uchaf o holl golegau addysg bellach cyffredinol. Mae dysgwyr sy'n astudio Safon Uwch yng Ngholeg Glannau Dyfrdwy yn cyflawni deilliannau da, ac mae llawer o ddysgwyr yn cyflawni graddau uwch na'r disgwyl. Ar draws y ddarpariaeth dysgu yn y gwaith, mae'r cyfraddau y mae dysgwyr yn cyflawni fframweithiau cymhwyster llawn a chymwysterau eraill arnynt yn cymharu'n dda â chymaryddion cenedlaethol a data meincnod.

Yn 2010, bu cynnydd yn nifer y dysgwyr yn ysgolion yn Sir y Fflint a enillodd gymwysterau medrau allweddol, yn enwedig yn y cyfnod ôl-16. Fodd bynnag, nid oes digon o ddysgwyr yn ennill cymwysterau medrau allweddol mewn ysgolion o hyd.

[2] Cyfwerth â 5 TGAU gradd A* i C
[3] Y perfformiad disgwyliedig mewn Saenseg neu Gymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth ar y cyd, sef pynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol
[4] Cyfwerth â 5 TGAU gradd A* i G
[5] Yn cynnwys pob cymhwyster a gymeradwyir yn allanol yn 16 oed
[6] Nid oedd data am berfformiad yn ôl disgwyliadau ar gyfer 2010 ar gael adeg yr arolygiad.
[7] Cyfwerth â llwyddo mewn dau gymhwyster Safon Uwch.
[8] Yn cynnwys pob cymhwyster a gymeradwyir yn allanol yn 18 oed

Mae’r lefelau mynediad a’r deilliannau mewn cymwysterau medrau allweddol yng Ngholeg Glannau Dyfrdwy yn dda.

Mae’r coleg wedi cael y deilliannau gorau yng Nghymhwyster Bagloriaeth Cymru ar gyfer unrhyw goleg yng Nghymru ar gyfer y rhan fwyaf o’r tair blynedd diwethaf[9].

Mae cyfran y dysgwyr sy’n ennill cymhwyster cydnabyddedig mewn Cymraeg yng nghyfnod allweddol 4 wedi bod yn uwch na chyfartaledd Cymru dros y tair blynedd diwethaf. Yn 2009, roedd cyfran y dysgwyr a wnaeth ennill lefel 2 mewn Cymraeg ail iaith wedi gwella ac roedd yn debyg i gyfartaledd Cymru. Nid yw digon o ddysgwyr yn dewis parhau â darpariaeth ac asesu cyfrwng Cymraeg adeg symud i Goleg Glannau Dyfrdwy ar gyfer y cyfnod ôl-16. Ychydig iawn o ddysgwyr yn y gwaith sy’n ymgymryd â rhan o’u hyfforddiant neu’r cyfan ohono trwy gyfrwng y Gymraeg neu’n ddwyieithog.

Mae cyfran uwch o ddisgyblion Blwyddyn 11 yn Sir y Fflint yn parhau mewn addysg amser llawn na chyfartaledd Cymru. Mae cyfran yr ymadawyr blwyddyn 11 nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant na chyflogaeth wedi disgyn ac mae’n parhau ymhell islaw ffigur Cymru. Mae’r cyfraddau cyfranogi yng Ngholeg Glannau Dyfrdwy yn dda. Ychydig iawn o ddysgwyr sy’n gadael y coleg heb unrhyw gymwysterau.

Mewn tair o’r pedair blynedd diwethaf, roedd presenoldeb yn ysgolion uwchradd Sir y Fflint y gorau yng Nghymru. Mae cyfraddau presenoldeb yng Ngholeg Glannau Dyfrdwy a Hyfforddiant Gogledd Cymru yn dda.

Mae cyfraddau gwaharddiadau parhaol a gwaharddiad cyfnod penodol yn ysgolion Sir y Fflint tua chyfartaledd Cymru. Mae data’r awdurdod lleol sydd heb ei wirio yn awgrymu bod cyfraddau gwahardd ar gyfer dysgwyr cyfnod allweddol 4 yn is na ffigur Cymru. Mae’r cyfraddau gwahardd yng Ngholeg Glannau Dyfrdwy yn isel iawn.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw’r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Llwybrau dysgu: Da**

Fe wnaeth holl ysgolion uwchradd Sir y Fflint ragori ar ofynion gofynnol Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru)[10] ar gyfer dysgwyr 14 i 16 oed. Mae ystod dda o gyrsiau cyffredinol a chymhwysol, a chyfleoedd da yn gyffredinol i ddysgwyr fynd ymlaen i gyrsiau ar lefelau uwch.

Mae trefniadau cydweithredol ar gyfer darpariaeth yng nghyfnod allweddol 4 rhwng ysgolion a Choleg Glannau Dyfrdwy yn datblygu’n dda. Eleni, mae tua chwarter o ddysgwyr cyfnod allweddol 4 Sir y Fflint yn cymryd rhan mewn amrywiaeth eang o gyrsiau cydweithredol. Mae bron pob un o’r cyrsiau hyn yn cael eu cynnal yn y Ganolfan Craidd Dysgu o ansawdd uchel yng Ngholeg Glannau Dyfrdwy ac maent yn cael croeso mawr gan ddysgwyr.

[9] Gan mai dim ond yn ddiweddar y mae llawer o ysgolion wedi cyflwyno Cymhwyster Bagloriaeth Cymru, mae cyfran y dysgwyr sydd wedi ennill achrediad yn fach.

[10] Mae Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) yn pennu nifer yr opsiynau a’r math o opsiynau y dylid eu cynnig i ddysgwyr 14 i 16 oed ac i ddysgwyr 16 i 18 oed.

Ar y cyfan, mae dysgwyr ôl-16 yn gallu manteisio ar ystod eang o gyrsiau sy'n cynnwys bob parth[11], a chynigir cyfleoedd da am ddilyniant rhwng lefelau. Mae cyfanswm o wyth ysgol uwchradd wedi cyflwyno Cymhwyster Bagloriaeth Cymru i ddysgwyr 14 i 16 oed yn ddiweddar. Mae Coleg Glannau Dyfrdwy a thua dwy ran o dair o'r ysgolion yn cynnig Cymhwyster Bagloriaeth Cymru ar lefel ôl-16. Mae'r coleg yn cynnig ystod eang iawn o gyrsiau cymhwysol o lefel mynediad i lefel 3 a rhai cyrsiau ar lefel 4.

Mae dysgwyr yn ysgol arbennig Ysgol Maes Hyfryd yn gallu manteisio'n dda ar amrywiaeth o gyrsiau yng nghyfnod allweddol 4 ac yn y cyfnod ôl-16. Mae dysgwyr yn cael llawer o gyfleoedd i ddilyn cyrsiau mewn dosbarthiadau prif ffrwd. Mae Coleg Glannau Dyfrdwy yn cynnig darpariaeth i ddysgwyr ar lefel mynediad i ddatblygu eu medrau ar gyfer bywyd a gwaith. Mae cyrsiau sylfaen yn y coleg yn cynnig rhaglenni i helpu hyrwyddo medrau byw'n annibynnol. Mae'r awdurdod lleol yn gweithio'n agos ar y cyd ag asiantaethau a phartneriaid eraill i gynnig cyrsiau a chyfleoedd i ddysgwyr sydd â lefel is o allu. Mae'r rhwydwaith yn cefnogi rhaglen cyfoethogi'r cwricwlwm i ddysgwyr sy'n dilyn rhaglenni ASDAN[12] mewn ysgolion.

Mae gweithio mewn partneriaeth ag Ysgol Morgan Llwyd yn Wrecsam a Choleg Glannau Dyfrdwy wedi gwella'r cwricwlwm yn Ysgol Maes Garmon ac wedi cynnig llwybrau dilyniant i ddysgwyr cyfrwng Cymraeg.

Mae cyfleoedd helaeth yn bodoli ym mhob darparwr i ddysgwyr fanteisio ar weithgareddau dysgu nad ydynt yn ffurfiol a gweithgareddau dysgu anffurfiol. Mae'r rhain yn cynnwys gweithgareddau sy'n ymwneud â chwaraeon, gwirfoddoli, byw'n iach, datblygiad personol, entrepreneuriaeth, cyflogadwyedd a hamdden. Hefyd, mae llawer o gyfleoedd i ddysgwyr gymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol, diwylliannol, chwaraeon, esthetig a chreadigol. Mae ystod eang o bartneriaid yn cyfrannu'n effeithiol i gyflwyno a chefnogi'r gweithgareddau hyn.

Caiff medrau dysgwyr sy'n gysylltiedig â gwaith eu datblygu drwy amrywiaeth o weithgareddau. Mae bron pob dysgwr 14 i 19 oed, gan gynnwys dysgwyr o'r ysgol arbennig, yn manteisio ar ystod dda o brofiadau sy'n ymwneud â gwaith. Mae'r rhain yn cynnwys gweithgareddau fel heriau menter, 'Denu Merched i Beirianneg' a mentrau mentora busnes.

Mae'r holl ddarparwyr yn trefnu darpariaeth briodol ar gyfer datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o Gymru, Ewrop a'r Byd. Maent yn darparu addysg bersonol a chymdeithasol neu raglenni tiwtorial sydd wedi'u cynllunio'n dda er mwyn datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o faterion personol a chymdeithasol a materion cynaliadwyedd ac iechyd.

Mae'r rhwydwaith yn cynnig cymorth ar gyfer rhaglen gydweithredol helaeth o dros 30 o weithgareddau cyfoethogi i ddysgwyr mwy galluog a dawnus. Mae'r lefelau cyfranogiad yn uchel.

---

[11] Mae pum parth: mathemateg, gwyddoniaeth a phob agwedd ar dechnoleg, busnes a rheoli, gwasanaethau i bobl, y celfyddydau creadigol a diwylliant, a'r dyniaethau ac ieithoedd.

[12] Mae ASDAN yn fudiad datblygu'r cwricwlwm a chorff dyfarnu sy'n cynnig rhaglenni a chymwysterau sy'n hyrwyddo medrau ar gyfer dysgu, cyflogaeth a bywyd.

**Cymorth i ddysgwyr: Da**

Mae'r rhwydwaith 14-19 oed wedi gwneud defnydd helaeth ar gyllid i gefnogi hyfforddiant achrededig anogwyr dysgu. Mae nifer y staff yn Sir y Fflint sy'n cwblhau hyfforddiant achrededig fel anogwyr dysgu ymhell uwchlaw cyfartaledd Cymru. Mae darparwyr yn defnyddio anogaeth dysgu'n effeithiol trwy dargedu cymorth at anghenion dysgwyr unigol.

Gall ddysgwyr droi at gymorth personol drwy ofal bugeiliol a threfniadau lles personol sydd wedi'u sefydlu'n dda. Mae darparwyr yn gweithio'n dda gyda'r awdurdod lleol ac amrywiaeth o asiantaethau i sicrhau bod cymorth o fewn cyrraedd pob dysgwr. Mae hyn wedi cael effaith fuddiol ar les dysgwyr.

Mae'r Gwasanaeth Ieuenctid, mewn partneriaeth â Gyrfa Cymru, yn gwneud cyfraniad sylweddol at y rhaglen gymorth i ddysgwyr y nodwyd eu bod mewn perygl o fod yn bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant na chyflogaeth. Mae gwaith partneriaeth effeithiol rhwng swyddogion lles cynhwysiant ac ysgolion ar draws Sir y Fflint wedi cyfrannu at batrwm clir o welliant mewn presenoldeb ac ymddygiad mewn ysgolion uwchradd.

Mae trefniadau effeithiol ar gyfer galluogi dysgwyr i gael cyngor, arweiniad a chymorth gyrfaol. Mae ysgolion yn cynnig cyngor ac arweiniad diduedd priodol i ddysgwyr ynghylch dewisiadau adeg 14 oed ac 16 oed o ran y cyrsiau a gynigir yn yr ysgol. Mae'r coleg yn cynnig gwybodaeth gynhwysfawr er mwyn helpu darpar ddysgwyr i ddewis cyrsiau addas. Mae cyrsiau blasu a nosweithiau agored yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i ddysgwyr gael profiad uniongyrchol o gyrsiau'r coleg. Mae'r holl ddysgwyr yn gallu troi at wybodaeth o ansawdd da ar-lein am y ddarpariaeth ôl-16, i'w helpu nhw i lywio'u dewisiadau.

Mae'r llyfryn opsiynau newydd a ddatblygwyd ar y cyd gan Goleg Glannau Dyfrdwy ac ysgolion yng nghonsortiwm de Sir y Fflint ar gyfer Medi 2011 yn adlewyrchu'r dull cydweithredol cynyddol o roi gwybodaeth glir i ddysgwyr am ystod yr opsiynau sydd ar gael iddynt.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth a gweithio mewn partneriaeth: Da**

Bu cynnydd da o ran helpu darparwyr a sectorau i weithio gyda'i gilydd yn effeithiol i gynnig ystod ehangach o gyrsiau i ddysgwyr yng nghyfnod allweddol 4 ac yn y cyfnod ôl-16. Mae ffurf y ddarpariaeth gydweithredol hon yn adlewyrchu'r dulliau a'r trefniadau partneriaeth amrywiol ar gyfer bodloni anghenion penodol ar draws y rhwydwaith. Mae gwaith y rhwydwaith wedi canolbwyntio ar sicrhau'r cynnig gorau oll i ddysgwyr ac nid dim ond bodloni gofynion gofynnol Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru).

Mae'r rhwydwaith yn meddu ar weledigaeth ar y cyd a ffocws clir ar ddarparu'r profiadau dysgu gorau i bobl ifanc yn Sir y Fflint drwy gyfrwng strwythurau cydweithredol cynaliadwy. Mae'n gwneud cyfraniad sylweddol at wella'r ddarpariaeth

ar gyfer dysgwyr 14 i 19 oed yn Sir y Fflint. Mae datblygiad y Ganolfan Craidd Dysgu wedi bod yn arbennig o lwyddiannus o ran cynorthwyo datblygu partneriaethau.

Mae'r rhwydwaith yn sicrhau ymglymiad ystod eang o bartneriaid ac yn cydlynu eu cyfraniad yn effeithiol. Mae wedi datblygu ymdeimlad cadarn o bartneriaeth ac ymddiriedaeth ar sail cyfathrebu rheolaidd ac ymgynghori ac ymwneud helaeth. Mae 'diwrnodau'r darparwr' misol yn hyrwyddo cydweithio ac yn helpu partneriaid i ddatblygu dealltwriaeth o'u cyfraniad at waith y rhwydwaith. Mae lefelau uchel o ymgysylltu â rhanddeiliaid, fel yn y dull cydlynus o sicrhau ansawdd y ddarpariaeth a'r cynllunio ar gyfer gwella.

Mae'r rhwydwaith wedi sefydlu nifer o is-grwpiau a grwpiau llywio i gymryd cyfrifoldeb am elfennau gwaith gwahanol. Mae aelodau'r rhwydwaith a darparwyr yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau mewn partneriaethau ffurfiol yn glir. Mae'r rhain wedi'u cyflwyno yn Nhrefniant Partneriaeth Darpariaeth 14-19 oed Sir y Fflint, y mae pob lleoliad dysgu yn cytuno iddo ac yn ei lofnodi, a chaiff hwn ei adolygu'n flynyddol.

Caiff cyfarfodydd rheolaidd o arweinwyr cwricwlwm y darparwyr eu cynnal i helpu i gynorthwyo cynllunio gweithgareddau cydweithredol ac i ddatblygu gweithdrefnau sicrhau ansawdd. Mae'r grŵp yn canolbwyntio'n dda ar yr angen am gynyddu'r dewis i ddysgwyr a gwella deilliannau drwy eu darpariaeth eu hunain a thrwy gydweithio. Mae'r grŵp hefyd yn talu sylw gofalus i'r angen am gynllunio ar gyfer cynaliadwyedd darpariaeth a phrosiectau.

Ar y cyfan, mae partneriaid yn rhannu adnoddau'n effeithiol ac yn defnyddio'r rhain yn dda i ymestyn y dewis i ddysgwyr a chyfoethogi eu cyfleoedd dysgu. Mae datblygiad y llwybr Prif Ddysgu ar gyfer peirianneg wedi'i seilio ar ddull cydweithredol; Coleg Glannau Dyfrdwy sy'n cyflwyno'r rhaglen a'r ysgolion sy'n cymryd rhan ynddi sy'n gyfrifol am elfen Bagloriaeth Cymru.

Mae ymgysylltiad cyflogwyr yn y rhwydwaith yn dda. Mae hyn yn cynnwys cysylltiadau effeithiol â chyflogwyr ar lefel strategol a gweithredol. Fe wnaeth y rhwydwaith sicrhau cynrychiolaeth o blith cyflogwyr o'r dechrau'n deg ac mae hyn wedi bod o fudd i ddysgwyr. Mae cefnogaeth gref ymhlith cyflogwyr tuag at y cymhwyster Prif Ddysgu mewn peirianneg.

Mae cysylltiadau effeithiol rhwng Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc yr awdurdod lleol a'r rhwydwaith i sicrhau dull cydlynol o gynllunio a chyflwyno'r ddarpariaeth ar gyfer pobl ifanc yn Sir y Fflint. Mae'r gwasanaeth cymorth ieuenctid yn gwneud cyfraniad gwerthfawr at waith y rhwydwaith, er enghraifft drwy ei ystod o raglenni sy'n cynorthwyo unigolion a grwpiau i aros mewn addysg brif ffrwd a sicrhau achrediad ffurfiol.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae'r rhwydwaith wedi gwneud cynnydd da o ran datblygu trefniadau effeithiol i sicrhau ansawdd. Mae is-grŵp ansawdd y rhwydwaith yn cynnal trosolwg clir o systemau hunanarfarnu, gan ddefnyddio ystod eang o wybodaeth yn dda.

Mae ymrwymiad cadarn i arfarnu ansawdd y ddarpariaeth gydweithredol, a diffiniwyd y cyfrifoldebau'n glir. Mae cytundebau lefel gwasanaeth cynhwysfawr ar gyfer sicrhau ansawdd ar waith a chânt eu hadolygu'n flynyddol. Mae'r rhwydwaith yn cael diweddariadau rheolaidd gan yr is-grwpiau am eu cynnydd yn y gwaith sy'n cael ei arwain ganddynt. Mae'r system ansawdd wedi llywio penderfyniadau ac wedi hyrwyddo newid o ran diddymu cyrsiau neu symud darpariaeth o fewn consortiwm y rhwydwaith. Mae grwpiau consortiwm wedi mabwysiadu'r un gweithdrefnau i gynnal cysondeb yn ansawdd cyflwyno'r ddarpariaeth gydweithredol. Serch hynny, mae rhywfaint o amrywiaeth yn nhrylwyredd y sicrwydd ansawdd ar lefel consortiwm.

Mae'r rhwydwaith yn defnyddio llais y dysgwr yn helaeth i lywio'i brosesau sicrhau ansawdd. Mae trafodaethau â grwpiau ffocws o ddysgwyr wedi ategu'r ddau arolwg diweddaraf o farn dysgwyr yn ddefnyddiol, er mwyn archwilio'r manylion sydd y tu ôl i'r data meintiol sydd wedi'i gynnwys yn yr arolygon.

Mae'r rhwydwaith yn cynnal ymarfer hunanarfarnu trylwyr yn flynyddol. Mae holl aelodau'r rhwydwaith yn cyfrannu'n llawn at y broses hunanarfarnu ac mae ganddynt berchenogaeth glir ar yr adroddiad hunanarfarnu a'r cynllun datblygu sy'n deillio ohono. Mae'r adroddiad hunanarfarnu presennol yn ddogfen fanwl sydd wedi'i seilio ar fframwaith arolygu Estyn. Mae'n gynhwysfawr ac yn arfarnol ac mae'n rhoi golwg realistig, hunanfeirniadol o'r gwaith a'r cynnydd a wnaed gan y rhwydwaith. Mae'r barnau a ddyfernir yn yr adroddiad hunanarfarnu yn cyfateb i'r rhai a ddyfarnwyd gan dîm arolygu Estyn. Mae'r adroddiad yn defnyddio ystod eang o dystiolaeth sy'n gysylltiedig â phob agwedd ar waith y rhwydwaith yn helaeth. Fodd bynnag, nid yw wedi'i lywio gan drosolwg o'r ddarpariaeth sy'n ymwneud ag ansawdd yr addysgu a chynnydd o ran gwella cost-effeithiolrwydd y ddarpariaeth.

Mae trefniadau effeithiol ar waith i sicrhau bod materion sy'n deillio o sicrhau ansawdd yn llywio'r gwaith o gynllunio datblygiad ac amcanion y Cynllun Datblygu Rhwydwaith Ardal. Mae meysydd i'w datblygu sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hunanarfarnu wedi'u cysylltu'n glir â Chynllun Gwella Ansawdd y rhwydwaith ar gyfer 2010-2011.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

Mae patrwm cyffredinol y ddarpariaeth a'r deilliannau yng nghyfnod allweddol 4 yn cynrychioli gwerth da am arian. Y cyllid cyfartalog fesul disgybl yn Sir y Fflint yw'r chweched isaf yng Nghymru. Gwnaed cynnydd da o ran ehangu opsiynau'r cwricwlwm i ddysgwyr drwy gydweithio rhwng darparwyr, ac mae'r deilliannau wedi gwella'n sylweddol. Mae'r ddarpariaeth a'r deilliannau ar gyfer dysgwyr ôl-16 yng Ngholeg Glannau Dyfrdwy a dysgu yn y gwaith yn cynnig gwerth da am arian hefyd.

O ganlyniad i'r cydweithio ôl-16 a sefydlwyd ers amser hir gan y pedair ysgol uwchradd yng Nghonsortiwm Glannau Dyfrdwy, mae cyfanswm nifer yr opsiynau ar gyfer dysgwyr wedi cynyddu ac mae cost-effeithiolrwydd y ddarpariaeth wedi'i sicrhau ar yr un pryd. Mewn rhannau eraill o Sir y Fflint, nid oes digon o hyblygrwydd i ganiatáu i ddysgwyr astudio cyfuniad o gyrsiau gyda mwy nag un darparwr.

Nid yw patrwm presennol y ddarpariaeth ôl-16 mewn ysgolion yn gynaliadwy. Mae gan tua hanner ysgolion uwchradd Sir y Fflint ormod o ddosbarthiadau ôl-16 bach.

Mewn tua chwarter yr ysgolion, mae gan gymaint ag un o bob pedwar dosbarth ôl-16 lai na phump dysgwr.  Hefyd mae dyblygu diangen o ran y cyrsiau sy'n cael eu cynnig mewn ychydig ysgolion.

Mae gan y rhwydwaith ddealltwriaeth glir o'r heriau y mae'n eu hwynebu o ran gwella cost-effeithiolrwydd y ddarpariaeth ôl-16 mewn ysgolion trwy ddileu dyblygu a dosbarthiadau bach.  Mae Achos Amlinellol Strategol yr awdurdod lleol ar gyfer trawsnewid y ddarpariaeth ôl-16 yn dangos yr angen am newid pellgyrhaeddol a radical ar draws y seilwaith ôl-16.  Mae rhoi ystyriaeth dda i'r materion sy'n ymwneud â chynaliadwyedd ac mae'n amlygu enillion posibl mewn effeithlonrwydd.  Hyd yn hyn, fodd bynnag, nid oes cynigion cadarn ar waith ynghylch ad-drefnu'r ddarpariaeth ôl-16 mewn ysgolion.

Yn gyffredinol, mae'r staffio, yr adeiladau a'r adnoddau dysgu ymhlith darparwyr unigol yn cyd-fynd yn dda â'r ddarpariaeth.  Mae'r adeiladau a'r adnoddau yn y coleg yn dda iawn ac mae adnoddau arbenigol da ar gyfer cyrsiau cymhwysol a dysgu yn y gwaith yn caniatáu i ddysgwyr ddysgu mewn amgylcheddau gwaith realistig.

Mae dysgwyr yn y gwaith yn elwa ar allu troi at adeiladau o safon uchel ac ystod gynhwysfawr o adnoddau addas pan fyddant yn mynychu hyfforddiant i ffwrdd o'r gwaith.  Mae llawer o ddysgwyr yn gweithio mewn amrywiaeth mawr o weithleoedd sy'n rhoi cyfleoedd priodol iddynt ennill dyfarniadau galwedigaethol cenedlaethol.

Mae gan ddarparwyr ddigon o staff cymwys a phrofiadol i gyflwyno'r cyrsiau ar gyfer dysgwyr 14 i 19 oed.  Mae addysgu gan bobl nad ydynt yn arbenigwyr yn anghyffredin iawn.  Mae gan yr holl ddarparwyr gyfleoedd wedi'u cynllunio'n dda am ddatblygiad proffesiynol parhaus i staff, sy'n ategu datblygiad strategaeth 14 i 19 oed y rhwydwaith.  Mae'r rhain yn cynnwys cynadleddau i arweinwyr y cwricwlwm a fforymau i benaethiaid.

Gwnaed defnydd da ar gyllid y Cynllun Datblygu Rhwydwaith Ardal i gefnogi mentrau, gan gynnwys darparu technoleg newydd, cefnogi cydweithio yng nghyfnod allweddol 4, hyfforddiant ar gyfer anogwyr dysgu a sefydlu prosiect i'r dysgwyr hynny sydd mewn perygl o beidio â bod mewn addysg, hyfforddiant na chyflogaeth.

Mae gan bob ysgol uwchradd a Choleg Glannau Dyfrdwy amgylcheddau dysgu rhithwir a chyfleusterau fideo-gynadledda.  Hefyd, mae'r rhwydwaith wedi cefnogi prynu cyfrifiaduron ar gyfer y Ganolfan Craidd Dysgu.  Mae'r Ganolfan Craidd Dysgu yn cynnig amgylchedd ansawdd uchel ar gyfer cyflwyno cyrsiau cydweithredol.

## Atodiad 1

**Sail dystiolaeth yr arolygiad**

Treuliodd saith arolygydd gyfanswm o 54 o ddiwrnodau yn arolygu safonau ac ansawdd y ddarpariaeth addysg a hyfforddiant ar gyfer dysgwyr 14 i 19 oed yn Sir y Fflint. Roedd y tîm arolygu'n cynnwys enwebai, sef cadeirydd rhwydwaith 14-19 oed Sir y Fflint.

Ystyriodd yr arolygwyr:

- adroddiadau arolygu blaenorol Estyn ar ddarparwyr;
- dogfennau gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru;
- cynlluniau a strategaethau lleol;
- data ar ddeilliannau dysgwyr a ddarparwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru am bobl ifanc 14 i 19 oed yn yr ardal, gan gynnwys gwybodaeth am y cyfraddau y mae dysgwyr yn cwblhau ac yn ennill cymwysterau a fframweithiau hyfforddi arnynt;
- data gan yr holl ddarparwyr am eu darpariaeth bresennol a'r niferoedd sy'n ymgymryd â'r ddarpariaeth; ac
- adroddiad hunanarfarnu'r rhwydwaith 14 i 19 oed.

Cafodd aelodau'r tîm gyfarfodydd â:

- rheolwyr o Lywodraeth Cynulliad Cymru sydd â chyfrifoldeb penodol am yr ardal, cynrychiolwyr o grŵp y rhwydwaith 14 i 19 oed ac uwch arweinwyr o'r awdurdod lleol ac o Goleg Glannau Dyfrdwy er mwyn esbonio'r broses arolygu ac ateb unrhyw gwestiynau;
- uwch reolwyr ysgolion uwchradd, Coleg Glannau Dyfrdwy a Hyfforddiant Gogledd Cymru;
- grwpiau ffocws a oedd yn cynrychioli dysgwyr 14 i 19 oed;
- yr awdurdod lleol, Gyrfa Cymru, Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint ac arweinwyr y rhwydweithiau 14 i 19 oed; a
- chynrychiolwyr o grŵp y rhwydwaith 14 i 19 oed, o ddarparwyr ac o'r awdurdod lleol i roi adborth ar ganfyddiadau dros dro yr arolygiad.

# Atodiad 2

### Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Iolo Dafydd AEM | Arolygydd Cofnodol |
| Sue Halliwell AEM | Arolygydd Tîm |
| Meinir Rees AEM | Arolygydd Tîm |
| Janice Thomas AEM | Arolygydd Tîm |
| Mark Evans AEM | Arolygydd Tîm |
| Steve Davies AEM | Arolygydd Tîm |
| Ceri Jones AEM | Arolygydd Tîm |
| Kevin Grandfield, Awdurdod Lleol Sir y Fflint | Enwebai |